


# Yr Hanes y tu ôl i Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru 1923 - 24

I'w ddarllen yn rhan o wasanaeth neu wrth gyflwyno'r ddeiseb fel rhan o wers





# Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru (1923 - 4)

Dychmygwch eich bod yn byw yng Nghymru yn y 1920au. **Bu farw 40,000 o ddynion a menywod o Gymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.** Prin fod tref neu bentref ar draws y wlad heb golledion, a byddai'r rhan fwyaf o bobl wedi adnabod rhywun - ffrind, perthynas, cymydog oedd wedi marw. Dychmygwch yr effaith y byddai hyn wedi'i chael ar eich teulu a'ch cymuned.

Oherwydd y colledion hyn roedd pobl yn benderfynol, yn y 1920au a'r 30au na ddylai rhyfel ar raddfa o'r fath ddigwydd eto. Un sefydliad a ymgyrchodd dros heddwch a dealltwriaeth ryngwladol oedd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru, ac roedd ganddo 1,014 o grwpiau cymunedol ledled Cymru gyda 61,262 o aelodau gweithredol.

Merched oedd yn perthyn i Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru a drefnodd ymgyrch i lunio deiseb gan fenywod Cymru, gan ofyn i ferched America roi pwysau ar eu Harlywydd i'r UDA ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd. Pam roedd hyn yn bwysig? Teimlwyd bod presenoldeb America yn bwysig er mwyn i'r corff ryngwladol newydd hwn lwyddo yn ei chenhadaeth o sefydlu heddwch byd-eang. Mae'n rhaid bod y ddeiseb wedi cydio yn nychymyg pobl. Fe'i lanswyd mewn cynhadledd genedlaethol yn Aberystwyth ym mis Mai 1923, a rhwng Mehefin a Thachwedd yr un flwyddyn casglwyd 390,296 o lofnodion gan fenywod yn curo ar ddrysau a chynnal stondinau mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol.

### Ar ôl ei gwblhau, roedd y ddeiseb yn 7 milltir o hyd!

Ond nid dyna ddiwedd y stori. Ym mis Ionawr 1924 cafodd y ddeiseb ei bacio i gist dderw arbennig ac ym mis Chwefror yr un flwyddyn cychwynnodd dirprwyaeth menywod dan arweiniad Annie Hughes Griffiths, Cadeirydd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru, am America ar fwrdd RMS Cedric a theithiodd y wlad helaeth honno am 2 fis, gan ymweld â grwpiau menywod, rhoi sgysiau a chwrdd â'r Arlywydd Coolidge. [Cadwodd Annie ddyddiadur](#) yn ystod y daith, gan roi cipolwg diddorol i ni ar eu profiadau.

Er nad oedd y ddeiseb efallai wedi cyflawni ei nod uniongyrchol (dechreuodd yr Ail Ryfel Byd ym 1939), mae'n rhaid ei bod wedi cael effaith enfawr ar filoedd o fenywod yng Nghymru ac America. Fel ymateb i ymweliad Menywod Cymru, daeth menywod yn America at ei gilydd i ffurfio'r 'Gynhadledd ar Achos a Gwellhad Rhyfel'. Mae'r Cenhedloedd Unedig, a grëwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, yn adeiladu ar weledigaeth Cynghrair y Cenhedloedd a'r gwersi a ddysgwyd ohoni. Mae deiseb y menywod yn ein hysbrydoli ni hyd heddiw.

### Beth fyddwch chi'n ei wneud i wneud eich ysgol, eich cymuned, y byd yn lle mwy heddychlon?